12 Diwrnod y Nadolig 2022 - 9fed enillydd

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Clwb Athletau Cwm Rhondda

Cynhaliwyd Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham dros yr haf eleni, ac fe ymwelodd Ras Gyfnewid Baton y Frenhines â phob cenedl a thiriogaeth yn y Gymanwlad. Ar ei daith drwy Gymru, ymwelodd y baton â thrac athletau Brenin Siôr V yng Nghwm Clydach, cartref Clwb Athletau Cwm Rhondda.

Cafodd plant o bob cwr o Rondda Cynon Taf eu croesawu i'r trac ar gyfer sesiwn 'blas ar athletau', wedi'i darparu gan hyfforddwyr ac aelodau Clwb Athletau Cwm Rhondda.

Cafodd pum aelod o'r clwb eu dewis i gario'r baton. Cariodd Wayne Hughes, Rhys Jones, Catherine Alford, Glyndwr Pugh a Pauline Dobbs y baton o amgylch y trac wrth i gannoedd o bobl wylio. Roedd yn ddiwrnod gwych ac yn gyfle rhagorol i ddathlu'r clwb a'r trac athletau newydd.

